

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Cynllun Strategol Medr 2025-30- Adroddiad ar yr ymatebion i'r Ymgynghoriad

Mawrth 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
www.medr.cymru



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1. Yn dilyn creu Medr – y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil – ar 1 Awst 2024, fe gyhoeddodd ni fersiwn ddrafft o Gynllun Strategol Medr 2025-2030. Fe ofynnodd ni am farn pobl ynglŷn â'r Cynllun Strategol trwy lansio ymgynghoriad cyhoeddus o 23 Medi tan 25 Hydref 2024. Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaethom gynnwys cyflogwyr ac fe gawsom sgysrsiau adeiladol gyda chynrychiolwyr undebau llafur. Gan gydnabod pwysigrwydd llais amrywiol dysgwyr, fe wnaethom hefyd ddatblygu gweithgarwch ymgysylltu penodol i sicrhau ein bod yn clywed eu barn hwy.
2. Gwyddom y bydd cynnwys ein rhanddeiliaid mewn modd ystyrion yn allweddol i lwyddiant Medr o ran sicrhau bod ein system addysg drydyddol ac ymchwil yn cyflawni dros ddysgwyr a thros Gymru. Dyna pam ein bod wedi ymgysylltu'n rheolaidd â phob rhan o'r system – dysgwyr, darparwyr, a sefydliadau sy'n gweithredu ar draws y sector, yn ogystal ag awdurdodau lleol, undebau llafur, Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill.
3. Rydym wedi cynnwys ein gweithlu'n weithredol wrth ddatblygu'r Cynllun trwy rannu drafftiau cynnar gyda phawb a chynnal sesiynau briffio gyda thimau i oleuo datblygiad ein nodau ac ymrwymadau.
4. Rydym yn ddiolchgar am yr holl adborth a gawsom ac rydym wedi ystyried pob ymateb i'r ymgynghoriad ac ymarferion cynnwys ehangach yn llawn, gan eu hystyried wrth ddiwygio'r Cynllun. Mae'r adroddiad hwn sy'n crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn rhoi cyfle i fyfyrion ynghylch sut y gwnaed hyn.

Dadansoddiad o'r ymatebion

5. Fe ofynnodd ni ddeunaw o gwestiynau ymgynghori, cyfuniad o gwestiynau caeëdig a chwestiynau agored a oedd yn archwilio eich barn chi am weledigaeth ac uchelgeisiau a nodau strategol Medr (gweler Atodiad 1: Nodau Strategol Medr). Fe ofynnodd ni nifer o gwestiynau a oedd yn ymwneud â chyfrifoldebau Medr mewn perthynas â'r Gymraeg, cydraddoldeb ac amrywiaeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd.
6. Fe gawsom 101 o ymatebion i'r ymarfer ymgynghori. Daeth y mwyafrif o'r ymatebion trwy'r ffurflen ar-lein ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad a bostiwyd ar wefan Medr. Cawsom nifer o ymatebion ysgrifenedig trwy'r e-bost hefyd.
7. Cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu dadansoddi'n fewnol yn Medr gan y Pennaeth Ymchwil Gymdeithasol, aelod o broffesiwn Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth. Roedd yr holl ymatebion a gafwyd yn ddilys ac fe gawsant eu dadansoddi a'u cymryd i ystyriaeth wrth ailddrafftio'r Cynllun Strategol.
8. Mae'r dadansoddiad, a'r adroddiad dadansoddi, yn adlewyrchu'r ystod o ymatebion a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad a'u hehangder. Cafodd cwestiynau caeëdig eu dadansoddi'n feintiol ac fe gyflwynir yr ymatebion yn y siartiau. Cafodd cwestiynau agored eu dadansoddi'n thematig ac fe gyflwynir crynodebau o themâu allweddol islaw'r siartiau. Lle defnyddir dyfyniadau mae'r rhain yn ddiennw ac wedi cael eu dewis i adlewyrchu thema gref a fynegwyd yn fynych gan ymatebwyr.

9. Cyflwynir y rhan fwyaf o gwestiynau ar wahân, ond mae rhai wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd i osgoi ailadrodd.
10. Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:
 - Fe ofynnem ni – cwestiwn yr ymgynghoriad
 - Fe ddywedoch chi – eich ymatebion chi i gwestiynau'r ymgynghoriad
 - Fe wnaethom ni – sut yr ydym wedi ystyried eich ymatebion wrth ailddrafftio'r Cynllun Strategol.


Ymatebion i'r ymgynghoriad ar Gynllun Strategol drafft Medr

Fe ofynnem ni:

1. Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn gosod un ar ddeg o ddyletswyddau strategol ar Medr.

1a. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Cynllun yn ein galluogi i gyflawni ein dyletswyddau?

Fe ddywedoch chi:




Sail: 77

Roedd dros dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf (72%) y bydd y Cynllun Strategol yn galluogi Medr i gyflawni ein dyletswyddau.

Fe ofynnem ni:

1b. A oes unrhyw ddyletswyddau sydd wedi'u tangynrychioli yn y Cynllun?

Fe ddywedoch chi:



Sail: 78

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod meysydd o fewn y dyletswyddau strategol a oedd wedi'u tangynrychioli yn y Cynllun. Roedd y gyfran fwyaf o ymatebion yn ymwneud â'r canlynol:

- Golwg fyd-eang: roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai fod mwy o gyfeiriad at feithrin ymgysylltu rhyngwladol, symudedd rhyngwladol, a chyfnewid gwybodaeth. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at bwysigrwydd diwylliannol ac ariannol dysgwyr rhyngwladol yn sefydliadau Cymru.

“Byddai angen cynnwys mwy am sut y mae system drydyddol Cymru'n perthyn o fewn cyd-destun byd-eang ehangach ar hyn o bryd a sut y bydd Medr yn hwyluso ei datblygiad.”

- Cyfle Cyfartal: Dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) – roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen cyfeiriad penodol at ddysgwyr ag ADY, gan gynnwys cyfeiriad at lwybrau ar gyfer dysgwyr a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

“O ystyried cyfle a chyfranogiad cyfartal, nid oes digon o bwyslais ar y disgyblion ADY sy'n aml iawn yn trosglwyddo i ganolfannau trydyddol. Beth yw'r ddarpariaeth iddynt hwy yn Gymraeg ac yn Saesneg?”

- Cyfle cyfartal: Cyfeiriodd ychydig o ymatebwyr at y diffyg cyfeiriad at drais yn erbyn menywod, ac LHDTTC+ (gweler cwestiwn 3 am ragor o fanylion).
- Y Gymraeg: gwnaeth nifer o ymatebwyr sylw am ddiffyg hyrwyddo'r Gymraeg, llwybrau Cymraeg, a mwy o fanylder am sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni.

“O ystyried targedau cyfredol y Llywodraeth trwy Gymraeg 2050 a [Bil y Gymraeg ac Addysg] teimlir yn eang bod y modd yr ymdrinnir â'r Gymraeg a'r weledigaeth ar ei chyfer yn wan. Teimlir bod diffyg uchelgais yma i ddarparu cyrsiau yn y ddwy iaith i'n holl ddysgwyr ble bynnag yng Nghymru y mae eu cartref.”

- Cydweithio gydag Undebau Llafur: gwnaeth rhai ymatebwyr sylw am y diffyg cyfeiriad at hybu cydweithio rhwng darparwyr ac undebau llafur

Fe wnaethom ni:

Rydym wedi cryfhau'r naratif ynghylch golwg fyd-eang a dysgwyr rhyngwladol drwy'r Cynllun i gyd, ac wedi cynnwys ymrwymiad dan nod strategol 1 sy'n hyrwyddo'r cyfleoedd byd-eang sydd ar gael i ddysgwyr, yn dathlu dysgwyr a staff rhyngwladol, ac yn canolbwyntio ar ganologrwydd creu dysgwyr sy'n ddinasyddion ymgysylltiol, sy'n edrych tuag at allan. O fewn nod strategol 4, rydym wedi cynnwys mwy o ffocws ar ddylanwad byd-eang a chyfranogiad rhyngwladol.

Roedd y Cynllun drafft yn pwysleisio pwysigrwydd gwneud ein holl ddysgwyr yn ganolog i'r hyn a wnawn, ond rydym yn cydnabod bod angen i ni fynd ymhellach o ran dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). O ganlyniad, rydym wedi gwneud ymrwymiad i ddull sy'n canolbwyntio ar unigolion ar gyfer dysgwyr ag ADY, gan daro cydbwysedd rhwng cymorth ac annibyniaeth o fewn nod strategol 1.


Yn olaf, rydym wedi mynegi'n eglur bod dyletswydd arnom i hybu perthnasoedd rhwng darparwyr ac undebau llafur, ac rydym wedi ymrwymo i gydweithio'n agos gyda'n Hundeb Llafur cydnabyddedig – PCS – fel rhan o'n nod sefydlu.

Fe gyfeiriodd nifer fawr o ymatebion yn y cwestiwn hwn, ac mewn cwestiynau eraill, at ein hymrwymadau i gyfle cyfartal a'r Gymraeg. Mae ein hadborth ar y rhain, yn hytrach na'i fod wedi'i wasgaru ar draws yr holl gwestiynau, wedi'i gynnwys yn yr adrannau perthnasol o fewn y ddogfen hon. Gan gydnabod bod cyfle cyfartal a'r Gymraeg ill dau'n hanfodol i'n Cynllun, ac yn tanategu ein gwaith, rydym wedi defnyddio'r dull hwn er mwyn rhwyddineb darllen ac i osgoi dyblygu o fewn yr adroddiad hwn.

Fe ofynnem ni:

2. Mae angen i'n Cynllun ymateb i'r datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi a gyflwynwyd i ni gan Lywodraeth Cymru. A yw'r Cynllun yn ymdrin yn ddigonol â'r holl flaenoriaethau hyn?

Fe ddywedoch chi:



Sail: 80

Roedd 64% o'r ymatebwyr yn teimlo bod y Cynllun yn mynd i'r afael yn rhannol â'r blaenoriaethau strategol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn gyffredinol, rhoddodd ymatebwyr ymatebion tebyg i'r rhai yng nghwestiwn 1. Roedd meysydd ffocws ychwanegol yn cynnwys:

- Rôl Medr: cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr angen i Medr ddarparu gweledigaeth ac arweinyddiaeth ar gyfer y dyfodol.
- Cynaliadwyedd ariannol: cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr angen am gynaliadwyedd ariannol, gan holi sut y byddai Medr yn gwneud 'penderfyniadau anodd'.

"...nid yw'r cynllun, ar hyn o bryd, yn cynnwys strategaeth ariannol eglur, i sicrhau bod yr uchelgeisiau hyn yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy o ystyried y cyfyngiadau cyllidebol."

- Gweithlu: nododd rhai ymatebwyr yr angen i roi cymorth i'r gweithlu addysg drydyddol.

Fe wnaethom ni:

Mae'r Cynllun yn nodi ein cred yng ngrym trawsnewidiol addysg drydyddol ac ymchwil, ac yn mynegi ein huchelgais cyfunol ar gyfer y dyfodol. Mae'n gosod yr uchelgais hwn yng nghyd-destun heriau sy'n cyflwyno pob un o'n nodau strategol, gan gynnwys heriau cyllidol. Rydym yn cydnabod, serch hynny, bod llawer o ymatebwyr wedi gofyn am fwy o eglurder ynglŷn â sut y bydd cyllid a chyllido'n gweithio, ac ynglŷn â sut y bydd penderfyniadau anodd yn cael eu gwneud. Ar y cam hwn, ni allwn ddarparu'r atebion –

am bod arnom eisiau i ddatrysiadau gael eu saernïo mewn cydweithrediad gyda'n rhanddeiliaid. **Cydweithio** yw un o'n gwerthoedd, ac mae arnom eisiau mynd ati, dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, i gydweithio er mwyn dod o hyd i'r datrysiadau gorau.

Mae ein nod sefydlu bellach yn cynnwys cyfeiriad penodol at fuddsoddi yn ein gweithlu ein hunain, i hybu meddylfryd twf, a thrin pawb fel unigolyn. Rydym wedi ailasesu ein naratif a'n nodau dan nod strategol 3, sydd bellach yn cynnwys cefnogi'r gweithlu addysg drydyddol.


Fe ofynnem ni:

3. A yw'r Cynllun yn ystyried yr angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu;
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu;
- lleihau deilliannau anghyfartal sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol?

Fe ddywedoch chi:


Fe ofynnem ni gyfres o gwestiynau a oedd yn ymwneud â chydraddoldeb ac anfantais. Daeth nifer o themâu cyffredin i'r amlwg o'r dadansoddiad o'r ymatebion rhydd i'r cwestiynau ac felly mae'r rhain wedi cael eu cyflwyno gyda'i gilydd.



Sail: 72

Roedd deugain a thri o ymatebwyr yn cytuno a 46% yn cytuno'n rhannol bod y Cynllun yn ystyried yr angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.


A yw'r Cynllun yn ystyried yr angen i hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu?



Sail: 67

Roedd pum deg un y cant o'r ymatebwyr yn cytuno a 39% yn cytuno'n rhannol bod y Cynllun yn hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.


A yw'r Cynllun yn ystyried yr angen i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu?



Sail: 60

Roedd deugain a phump y cant o'r ymatebwyr yn cytuno a 42% yn cytuno'n rhannol bod y Cynllun yn ystyried yr angen i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

A yw'r Cynllun yn ystyried yr angen i leihau deilliannau anghyfartal sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol?



Sail: 64

Roedd hanner cant ag wyth o'r ymatebwyr yn cytuno'n rhannol a 33% yn cytuno bod y Cynllun yn ystyried yr angen i leihau deilliannau anghyfartal sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Gan adlewyrchu'r ymateb uchel i'r opsiwn Yn rhannol ar gyfer y cwestiynau hyn, roedd y sylwadau a gafwyd yn amlygu nifer o feysydd yr oedd ymatebwyr yn teimlo bod angen rhoi mwy o sylw iddynt o fewn y Cynllun.

- Camau gweithredu wedi'u targedu: mwy o fanylion am strategaethau penodol i fynd i'r afael ag anghenion y rhai sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i addysg a chamau gweithredu wedi'u targedu i leihau effaith anghydraddoldeb ac anfantais economaidd-gymdeithasol ar ddeilliannau addysgol.
- Ymyrryd yn gynnar: gan gydnabod bod hyn y tu hwnt i gwmpas cylch gwaith Medr i raddau helaeth, nododd nifer o ymatebwyr yr angen i fynd i'r afael ag effeithiau anghydraddoldeb cyn bod dysgwyr yn ymuno ag addysg drydyddol.
- Llwybrau cydlynol: mae angen i sector addysg drydyddol gwirioneddol deg fod â llwybrau cydlynol a llinellau dilyniant di-dor.
- Roedd ymatebwyr yn teimlo'n arbennig nad oedd y meysydd canlynol yn cael digon o sylw yn y Cynllun drafft:
 - Dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): mae angen i'r Cynllun roi mwy o sylw i'r maes yma, gyda phwyslais penodol ar ddysgwyr cyfrwng Cymraeg.
 - Cymru wrth-hiliol: mae angen i'r Cynllun gyfeirio'n benodol at Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a sut y bydd yn cyfrannu at ei weithredu.

"Er bod y Cynllun yn enwi sawl cyfeiriad at fentrau eraill yng Nghymru, nid yw'n nodi uchelgais Llywodraeth Cymru i ddod yn genedl Wrth-hiliol erbyn 2030..."

- Trais ar sail rhywedd ac aflonyddu rhywiol: mae angen i'r Cynllun gynnwys adlewyrchiad gwell o'r dystiolaeth o effaith trais ac aflonyddu ar sail rhywedd ar ddysgwyr a rhoi mwy o sylw i rywedd a thrais ar sail rhywedd ac aflonyddu rhywiol yn enwedig gan gyfeirio at wneud dysgwyr yn ganolog i'r system.

“O ystyried y cydnabyddir yn eang bod Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn fater hollbresennol.....a difrifoldeb y risgiau a niweidiau cysylltiedig, rydym yn argymhell yn gryf bod Medr yn blaenoriaethu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Fel mater rhyweddol ac un y mae angen ymateb croestoriadol iddo, dylai gael ei ystyried dan y ddyletswydd.”

Dau faes arall a godwyd nifer o weithiau oedd:

- Yr angen i ystyried y ffactorau cyd-destunol yng Nghymru sy'n dylanwadu ar anghydraddoldeb, megis daearyddiaeth a demograffeg.
- Yr angen am ddata gwell ar nodweddion gwarchoddedig, i lenwi bylchau yn ein dealltwriaeth am yr anghenion hyn ac i alluogi Medr i fesur ei effaith ar y grwpiau hyn.

Fe wnaethom ni:

Rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar ein gwefan [[Cynllun Cydraddoldeb Strategol Medr 2024-2028](#)], ac rydym wedi cadarnhau y bydd asesiadau effaith integredig yn goleuo ein penderfyniadau ynglŷn â pholisïau a chyllid.

Rydym wedi gwneud ymrwymadau penodol i weithio gyda phartneriaid i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, trais a cham-drin ar sail rhywedd, ac i weithio gyda Llywodraeth Cymru tuag at greu Cymru Wrth-hiliol. Fel gyda'n holl nodau strategol, bydd yr ymrwymadau hyn yn cael eu hategu gan ein cynllun gweithredol, a fydd yn darparu amlinelliad manylach o'r gweithgareddau y byddwn yn eu cyflawni i gyrraedd y nodau hynny. Gwyddom hefyd y bydd data gwell ar ddysgwyr â nodweddion gwarchoddedig yn helpu i oleuo camau gweithredu wedi'u targedu o fewn ein cynlluniau gweithredol.

Caiff yr angen i ddarparu llwybrau cydlynol ei ddiffinio yng nghyd-destun nod strategol 1. Rydym yn cydnabod bod cyfranogiad mewn dysgu'n amrywio gan fod yn ddibynnol ar nifer o ffactorau, ac rydym wedi ymrwmo i gynyddu cyfranogiad yn gyffredinol, ond yn enwedig gan y rhai sy'n wynebu rhwystrau i addysg, ac anghydraddoldebau y dylanwedir arnynt gan leoliad. Rydym hefyd yn cydnabod y pryderon ynghylch effaith anghydraddoldeb ac anfantais economaidd-gymdeithasol ar ddeilliannau addysgol, a byddwn yn cynnwys camau gweithredu penodol yn ein cynlluniau gweithredol.


Nid ydym wedi cynnwys ymrwymiad penodol ynghylch effeithiau anghydraddoldeb cyn bod dysgwyr yn ymuno â'r sector addysg drydyddol. Fodd bynnag, byddwn yn cefnogi partneriaid fel y bo'n briodol gyda threfniadau cyn pontio.

Mae ein hymateb i gwestiwn 1 yn rhoi sylw i fynd ati'n benodol i gynnwys dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Fe ofynnem ni:

4. A fydd y Cynllun yn cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015?

Fe ddywedoch chi:



Sail: 72

Roedd cytundeb cryf y byddai'r Cynllun yn cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gyda 93% o'r ymatebwyr wedi dewis yr atebion Bydd neu Yn rhannol i'r cwestiwn.

Yn gyffredinol roedd ymatebwyr yn gefnogol iawn i'r modd yr oedd y Cynllun yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Roedd teimlad bod rhai meysydd wedi'u tangynrychioli i ryw raddau ac y gallai hynny fynd yn groes i gyrraedd nodau eraill yn y Cynllun sy'n ymwneud â chydraddoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys materion sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg, dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, rhyngwladoli a golwg fyd-eang, ffocws ar gynaliadwyedd amgylcheddol, a thrais ar sail rhywedd, a adlewyrchir mewn ymatebion i nifer o'r cwestiynau ymgynghori.

Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod angen mwy o fanylder am sut y mae strategaeth Medr yn ategu'r nodau hyn a chydabyddiaeth i sut y mae'r nodau'n rhyngweithio â'i gilydd.

"Mae'n bwysig nodi'r berthynas rhwng y gwahanol nodau llesiant fan hyn. Er enghraifft, gall cyrraedd Nod Strategol 5 yn y Cynllun gyfrannu hefyd at y nod i greu Cymru gydnerth – lle mae'r Gymraeg yn cyfrannu at dwf busnesau arloesol a chynaliadwy, yn enwedig yn y sectorau o fewn yr economi sydd bwysicaf i siaradwyr Cymraeg a lle ceir yr angen mwyaf am sgiliau Cymraeg. Mae'r un peth yn wir am 'Cymru lewyrchus', 'Cymru sy'n fwy cyfartal', a 'Cymru o gymunedau cydlynus'."

Fe wnaeth ymatebwyr hefyd amlygu'r angen i daro cydbwysedd rhwng blaenoriaethau byrdymor a nodau hirdymor ac i bennu targedau a deilliannau penodol sy'n gysylltiedig â'r nodau.

“Mae’r gofyniad i gyrff cyhoeddus ystyried yr hirdymor, atal problemau, dull integredig a chydweithredol a chynnwys pobl, wedi’i fynegi’n dda iawn. Fodd bynnag, rydym ni o’r farn, heb dargedau a chamau gweithredu ategol, ei bod hi’n aneglur a fydd y cynllun yn cyfrannu at gyrraedd nodau llesiant.”

Fe wnaethom ni:


Daeth nifer o themâu i’r amlwg yn eich ymatebion, yr ydym eisoes wedi ymdrin â hwy, gan gynnwys y rhai sy’n ymwneud â golwg fyd-eang, Anghenion Dysgu Ychwanegol a thrais ar sail rhywedd. Rydym wedi adolygu eich naratif, ac wedi cryfhau cyfeiriad at gynaliadwyedd amgylcheddol, a sgiliau i gefnogi’r daith at sero net.

Rydym yn deall ceisiadau am fwy o fanylder o ran sut y bydd ein strategaeth yn ategu ein nodau, a sut y bydd Medr yn taro cydbwysedd rhwng nodau hirdymor a chamau gweithredu byrdymor. Mae gennym ymrwymiad sylfaenol i’r pum ffordd o weithio yn Neddff Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 a chyfrannu at y nodau llesiant. Fodd bynnag, fel sefydliad ifanc, nid ydym mewn sefyllfa i ddisgrifio datrysiadau i rai o’n heriau eto. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn coladu data sylfaenol, y byddwn yn ei ddefnyddio fel sail, trwy weithio ar y cyd, i bennu dangosyddion perfformiad i’n galluogi i ystyried yr hirdymor. Byddwn yn datblygu cynllun gweithredol, a fydd yn disgrifio sut y byddwn yn cyrraedd ein nodau ac yn cyfrannu at y nodau llesiant.

Fe ofynnem ni:

5. A yw’r nodau a’r ymrwymïadau yn y Cynllun yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy?

Fe ddywedoch chi:



Sail: 61

Roedd naw deg y cant o’r ymatebwyr yn cytuno neu’n cytuno’n rhannol bod y nodau a’r ymrwymïadau yn y Cynllun yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Roedd ymatebwyr yn gefnogol iawn gyda sylwadau tebyg i’r rhai a gafwyd i gwestiwn pedwar, yn enwedig o ran yr angen am fwy o fanylder ynghylch sut y gellir rhoi hyn ar waith. Pwyntiau ychwanegol a godwyd oedd:

- Sut fydd Medr yn sicrhau cyfle cyfartal, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- Mwy o fanylder ynghylch sut y bydd Medr yn cyfrannu at gynaliadwyedd amgylcheddol.
- Pwysigrwydd mesur a chasglu data i dracio cynnydd.

“... gellid cyflawni mwy o gysondeb â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y Ddeddf trwy wella mentrau sy'n hybu mynediad cyfartal at addysg ym mhob rhanbarth, yn enwedig mewn cymunedau gwledig a difreintiedig.”


Fe wnaethom ni:

Rydym yn ymwybodol o'r gwahaniaethau mewn cyfle cyfartal ledled Cymru, gan gydnabod amrywiaeth ein dysgwyr a'u hanghenion, yn ogystal â'r gwahaniaethau daearyddol mewn mynediad ledled Cymru. Byddwn yn ystyried fel rhan o'n strwythur llwybrau sut y gallwn wella cyfle cyfartal, a bod ag enghreifftiau o arloesi gwych mewn rhai ardaloedd i oresgyn rhwystrau. Rydym wedi cryfhau cyfeiriadau at gynaliadwyedd amgylcheddol a hyfforddiant sgiliau gwyrdd yn y Cynllun, yr ydym wedi'u cynnwys yn y naratif ar gyfer nod strategol 2.

Fe ofynnem ni:

6. **Wrth ddrafftio'r Cynllun hwn, rydym wedi ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth o adroddiadau ac ystadegau a gyhoeddwyd. A oes unrhyw dystiolaeth ychwanegol y mae angen i ni ei hadlewyrchu yn y Cynllun?**

Fe ddywedoch chi:



Sail: 70

Dyweddodd y mwyafrif o ymatebwyr (83%) fod dystiolaeth ychwanegol yr oedd angen ei hadlewyrchu yn y Cynllun.

Fe wnaeth ymatebwyr ein cyfeirio at ystod eang o ffynonellau dystiolaeth ychwanegol. Mae dystiolaeth allweddol y dylid ei hadlewyrchu'n well yn cynnwys:

- Tystiolaeth ar drais ar sail rhywedd mewn addysg uwch a'i effeithiau.
- Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru).

- Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.
- Y Cynllun Gweithredu LHDTTC+.
- Y Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl.

Nododd ymatebwyr hefyd yr angen cyffredinol am well tystiolaeth a data ar:

- Anghysonderau mewn deilliannau addysgol ar draws gwahanol nodweddion gwarchoddedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol.
- Mwy o dystiolaeth ar anghenion o ran sgiliau a'r gweithlu.
- Tystiolaeth well i ddeall yr heriau a deall y gofynion e.e. sut y bydd y dirwedd dysgwyr yn edrych.


Fe wnaethom ni:

Roedd ein dogfen ymgynghori'n cynnwys enghreifftiau o'r dogfennau ac adroddiadau y gwnaethom eu harchwilio i ddrafftio'r Cynllun. Wrth gwrs, fe gyfeiriom ni at lawer iawn o adroddiadau eraill a gwybodaeth arall, ac rydym yn gwerthfawrogi'r cyfeiriadau at dystiolaeth ychwanegol. Fe gymharom ni ein rhestr ni o ddogfennaeth â'r ystod a ddarparwyd gan ymatebwyr a, lle'r oedd yn briodol, fe edrychom ni ymhellach ar y dogfennau hynny. Byddwn yn parhau i edrych ar amrywiaeth eang o dystiolaeth wrth i ni ddatblygu ein cynllun gweithredol.

Fe ofynnem ni

7. Ydych chi'n rhagweld y bydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol neu effeithiau negyddol yn deillio o'r Cynllun?

Fe ddywedoch chi:



Sail: 69

Roedd dros ddwy ran o dair (68%) o'r ymatebwyr yn teimlo y gallai canlyniadau anfwriadol neu effeithiau negyddol ddeillio o'r Cynllun.

Roedd y rhain fel rheol yn perthyn i ddau faes allweddol – effeithiau anfwriadol neu andwyol ar ddysgwyr mewn rhai categorïau (dysgwyr trwy gyfrwng y Gymraeg, dysgwyr ag ADY, siaradwyr Cymraeg ag ADY) a cholli ffocws ar rannau penodol o'r sector trydyddol (yn enwedig chweched dosbarth mewn ysgolion a dysgu seiliedig-ar-waith).

Roedd effeithiau negyddol neu anfwriadol posibl eraill yn cynnwys:

- Mae'r diffyg pwyslais ar hybu golwg fyd-eang yn creu risg y gallai nifer o effeithiau negyddol ddeillio o'r cynllun e.e.

“... heb ddigon o gefnogaeth i ymgysylltu byd-eang, gallai fod effaith negyddol ar ansawdd system addysg drydyddol Cymru, ac fe allai arwain at ddiffyg amrywiaeth a syniadau newydd ...”

- Ceir risg y gallai'r Cynllun ddibrisio sgiliau galwedigaethol/technegol.
- Cyfyngu'n anfwriadol ar ymgysylltiad gan ddysgwyr anhraddodiadol.

Fe wnaethom ni:

Rydym yn cydnabod yn llawn sylw cyffredinol a wnaed ei bod hi'n anodd asesu'r potensial ar gyfer canlyniadau anfwriadol nes y gwneir penderfyniadau polisi ac y ceir eglurder ynghylch sut y bydd deilliannau'n cael eu cyflawni. Rydym hefyd yn cydnabod bod sefydlogrwydd ariannol yn allweddol, a bod angen dyrannu adnoddau i ategu ein huchelgeisiau. Rydym yn ymrwymedig i gydweithio gyda phartneriaid lle bynnag y bo'n bosibl i bennu datrysiadau dichonadwy cyn dod i benderfyniadau.


Rydym yn deall y pryderon ynghylch ffocws generig y Cynllun, wrth inni ddod yn sector addysg drydyddol ac ymchwil go iawn. Mae pob elfen sy'n rhan o'r sector addysg drydyddol ac ymchwil yn bwysig, ac mae arnom eisiau sicrhau bod pob un yn cael ei gwerthfawrogi. Rydym wedi ei gwneud yn glir bod trefniadau yr ydym yn eu gwneud yn ymatebol i anghenion gwahanol pob rhan o'r sector. Rydym yn cydnabod bod “angen rhoi sylw i ddwyn cydlynad ar yr un pryd â chydabod gwahaniaeth rhwng y sectorau ac, yn wir, y rhanbarthau, a'r carfannau o ddysgwyr yng Nghymru”.

Rydym wedi ei chael hi'n anodd deall sut y gallai'r Cynllun arwain yn anfwriadol at ddibrisio sgiliau galwedigaethol, neu gyfyngu ar ymgysylltiad ar gyfer dysgwyr anhraddodiadol, a byddwn yn ymwybodol o hyn wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau gweithredol. Rydym wedi ymdrin â materion sy'n ymwneud â golwg fyd-eang, a dysgwyr ag ADY, yn ein hymatebion i gwestiynau blaenorol.

Fe ofynnem ni:

8. Mae gweledigaeth Medr yn datgan y byddwn yn cydweithio'n agos gyda'n partneriaid i alluogi system addysg drydyddol ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, cymdeithas a'r economi, gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltu'n greiddiol iddi. A yw'r nodau strategol yn y Cynllun yn ein galluogi i wireddu ein gweledigaeth?

Fe ddywedoch chi:



Sail: 79

Roedd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (65%) yn teimlo na fyddai nodau cynllun strategol Medr ond yn ei alluogi'n rhannol i wireddu ei uchelgais fel a nodir uchod.

Roedd y nodau'n cael eu derbyn fel rheol, ond nododd yr ymatebwyr bryder ynghylch y diffyg strategaeth ariannol yn y Cynllun i ategu'r weledigaeth.

Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo nad oedd y Cynllun yn amlinellu'n ddigon eglur sut y mae arno eisiau ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid, neu sut y mae disgwyl i randdeiliaid gysylltu â Medr, gan ofyn am fwy o eglurder ynghylch pwy yw'r partneriaid a rhagor o fanylion ynghylch mecanweithiau ymgysylltu.

“Er bod y naws ar y cyfan wedi bod yn gadarnhaol, byddai Medr mewn sefyllfa dda i symud tuag at ffurfioli ei fecanweithiau ymgysylltu gyda'i bartneriaid yn unol â'i nodau strategol a'i amcanion.”

Fe wnaeth ymatebwyr amlygu pwysigrwydd cydweithio gyda chyflogwyr a phartneriaid mewn diwydiant, yn ogystal â sefydliadau cymunedol ac elusennau.

Cafodd pwysigrwydd cyngor gyrfaedd o ansawdd da ar gyfer dysgwyr a chydweithio gyda chyflogwyr mewn perthynas ag opsiynau galwedigaethol ei amlygu'n fynych hefyd.

Roedd ar nifer o ymatebwyr hefyd eisiau gweld mwy o ffocws ar ddysgu gydol oes a llwybrau dysgu hyblyg.

“... mae gan wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd annibynnol a diduedd rôl hollbwysig i helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus am ddewisiadau o ran y camau nesaf i mewn i addysg drydyddol.”

Fe wnaethom ni:


Rydym yn deall yr angen am strategaeth ariannol i ategu ein gweledigaeth, a byddwn yn datblygu strategaeth a fydd yn cael ei rhannu. Rydym hefyd yn deall y dyhead i weld y camau gweithredu sy'n tanategu ein strategaeth, y byddwn yn eu datblygu o fewn ein cynllun gweithredol.

Cydnabyddir y bwriad i gydweithio, ond ar y cyfan rydym wedi ymatal rhag enwi partneriaid y byddwn yn cydweithio gyda hwy, neu raglenni y byddwn yn rhyngweithio â hwy. Gobeithio bod ein dull hyd yma wedi dangos bod arnom eisiau ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, ond bod enwi'r rhain yn creu'r perygl o hepgor rhywun yn anfwriadol a allai fod yn wrthgynhyrchiol. Fodd bynnag, rydym wedi cyfeirio'n benodol at Gyrfa Cymru, gan gydnabod pwysigrwydd cyngor a chyfarwyddyd, yn enwedig yn ystod y broses o bontio i addysg drydyddol.

Fe ofynnem ni:

9. O fewn pob un o'r nodau strategol yn y Cynllun, ceir ymrwymïadau sefydlu sydd i'w cyflawni yn y ddwy flynedd gyntaf, ac ymrwymïadau twf sydd i'w datblygu dros bum mlynedd. Gan ystyried pob un o'r nodau strategol, a yw'r ymrwymïadau sefydlu a thwf yn gywir?

Fe ddywedoch chi:



Sail: 75

Er eu bod yn cefnogi'r ymrwymïadau sefydlu a thwf at ei gilydd, roedd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (69%) yn teimlo bod yr ymrwymïadau sefydlu a thwf a oedd yn gysylltiedig â'r nodau strategol yn rhannol gywir yn unig, gyda theimlad cyffredinol bod angen mwy o fanylder yn gyffredinol ynghylch sut y bydd ymrwymïadau sefydlu a thwf

yn dwyn digon o gynnydd a chyflawniad yn erbyn y nodau strategol. Themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd:

- Yr angen am fwy o bwyslais ar ddysgwyr ag anghenion ychwanegol.
- Yr angen i fod yn mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd mewn lleoliadau addysgol.
- Yr angen am adolygiad o sgiliau yn enwedig sgiliau sylfaenol.

“Dylai sgiliau sylfaenol fod yn flaenoriaeth uniongyrchol ar gyfer gwella o ran cyllid a mwy o gydlynid ar draws y system drydyddol. Mae cael y ddarpariaeth sgiliau sylfaenol yn iawn yn hollbwysig i wella cyfleoedd cyflogaeth a chyfranogiad dinesig i lawer o oedolion yng Nghymru.”

- Mwy o bwyslais ar bontio i addysg ôl-16, yn enwedig lle mae dysgu galwedigaethol yn y cwestiwn.
- Yr angen i gryfhau'r ymrwymadau twf sy'n gysylltiedig â Nod Strategol 5 ac i gynnwys ymrwymiad i dyfu'r gweithlu Cymraeg eu hiaith yn y sector.
- Yr angen am fwy o bwyslais ar heriau o ran y gweithlu a dealltwriaeth am heriau o ran y gweithlu ym mhob rhan o'r sector trydyddol.
- Roedd cefnogaeth gref i God Ymgysylltu â Dysgwyr a fforwm Llais y Dysgwr, ond cwestiynau ynghylch sut i ymgysylltu â lleisiau'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr eto neu sydd wedi ymddieithrio oddi wrth ddysgu a/neu hyfforddiant.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at yr angen am fwy o ddata a hwnnw'n ddata gwell i danategu ymrwymadau sefydlu a thwf. Yn enwedig:

- Sut y mae Medr yn bwriadu deall yn well pa ddata sydd gennym ar hyn o bryd a beth sydd ar goll, gan gynnwys tueddiadau mewn lefelau dysgu a sgiliau ledled Cymru?
- Yr angen am ddata sylfaenol.
- Yr angen i sicrhau dibynadwyedd data.
- Pwysigrwydd a heriau creu system casglu data gydgysylltiedig a chyson ar draws y sector addysg drydyddol.

Fe wnaethom ni:

Rydym yn ymwybodol o'r alwad am fwy o fanylder ynghylch y nodau strategol. Fodd bynnag, cynllun strategol yw hwn, ac ar y cam yma, ni fyddai'n briodol darparu manylder o'r fath. Bydd manylion yn dod i'r amlwg fel rhan o'n proses cynllunio gweithredol ac, fel yr ydym wedi'i nodi'n flaenorol, mae arnom eisiau ymgysylltu â phartneriaid wrth ddatblygu camau gweithredu, gwerthuso opsiynau ac, yn y pen draw, pennu datrysiadau i gyrraedd ein nodau strategol.


Gan bod y cwestiwn hwn yn gofyn am ystyriaeth i'r nodau strategol a'r ymrwymadau, mae'n anorod y bydd peth ailadrodd rhwng yr ymatebion i'r cwestiwn hwn a'r rhai i gwestiynau eraill. Mae llawer o faterion wedi cael eu codi yn barod, neu'n mynd i gael eu codi yn nes ymlaen yn ein hymatebion, yn enwedig mewn perthynas â dysgwyr ag ADY, trais ar sail rhywedd, pontio i addysg ôl-16, y gweithlu a'r Gymraeg.

Mae casglu a dadansoddi data'n elfen hollbwysig o'n nod sefydlu, ac rydym yn ymrwymedig i ddarparu data sylfaenol, lleihau beichiau ar ddarparwyr data, a defnyddio data fel rhan o set wybodaeth i wneud penderfyniadau.

Fe ofynnem ni:

10. Beth yw'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer dysgwyr y presennol a'r dyfodol yn y sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru? A yw'r rhain yn cael eu hadlewyrchu ddigon yn y Cynllun?

Fe ddywedoch chi:



Sail: 58

Roedd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (69%) yn teimlo mai dim ond yn rhannol y mae'r Cynllun yn adlewyrchu blaenoriaethau dysgwyr y presennol a'r dyfodol yn y sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

Roedd ymatebwyr yn teimlo'n gryf bod angen ymdrin yn well â nifer o flaenoriaethau ar gyfer dysgwyr yn y Cynllun.

- Cyngor a chyfarwyddyd – pwysigrwydd cyngor a chyfarwyddyd annibynnol o ansawdd da ar gyfer dysgwyr wrth bennu llwybrau dilyniant, gan gynnwys cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd cadarn a diduedd (gan gynnwys ar gyfer pontio i addysg drydyddol).

“Mae cael mynediad at gyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd cadarn a diduedd yn ystod y cyfnod pontio o addysg cyn-16 i addysg ôl-16 yn hollbwysig. Ceir nifer o gyfeiriadau yn y Cynllun at y ffaith bod hon yn adeg dyngedfennol yn nhaith ddysgu person ifanc ond prin yw'r manylion o ran sut y bydd hyn yn gweithio ar draws y sectorau mewn modd cydweithredol.”

- Datblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol – gan gynnwys sgiliau sylfaenol mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol; sgiliau newydd i gefnogi technolegau newydd; yr angen am sgiliau Cymraeg.
- Hyblygrwydd – yr angen i ymateb yn hyblyg i anghenion dysgwyr.
- Gwybodaeth well am ddysgwyr mewn addysg orfodol a ffocws cryfach ar weithio gyda'r system gyn-drydyddol i hwyluso dilyniant dysgwyr, yn enwedig mewn perthynas â dysgwyr mwy difreintiedig.

- Yr angen am fwy o fanylder ynghylch sut y gall y sector gydweithio i sicrhau bod y blaenoriaethau hyn ar gyfer dysgwyr yn cael eu cyflawni.

Blaenoriaethau eraill a nodwyd oedd – iechyd meddwl a llesiant dysgwyr, costau byw, a chost addysg a theithio a chludiant i gael addysg.

“Mae dysgwyr yn wynebu methu â chael mynediad at eu dewis ddarpariaeth sy’n ateb y galw economaidd o ganlyniad i loteriau cod post a gorfod dewis pynciau sydd ar gael yn lleol o’i gymharu â’r yrfa a fyddai orau ganddynt”.

Fe wnaethom ni:


Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd effeithiol ar gyfer dysgwyr. Er nad yw cyngor a chyfarwyddyd cyn-16 o fewn ein cylch gwaith ni, byddwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo gweithgarwch perthnasol, a byddwn yn gweithio gyda Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru i annog mwy o ddysgwyr i bontio i addysg drydyddol, a lleihau cyfran y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae iechyd meddwl a llesiant ein dysgwyr yn hollbwysig ac rydym yn ymrwymedig i sefydlu “amodau rheoleiddiol i gefnogi lles dysgwyr a staff”.

Mae Nod Strategol 2 yn pwysleisio pwysigrwydd caffael sgiliau a gwybodaeth ar gyfer economi a chymdeithas sy’n newid. Yn gyffredinol, nid ydym wedi cyfeirio at ofynion penodol o ran sgiliau, na gwahanol fathau o gymwysterau, gan mai materion i’n cynlluniau gweithredol yw’r rhain. Rydym yn nodi bod peth dryswch ynglŷn â therminoleg, megis pa un a yw sgiliau hanfodol a sylfaenol yn golygu’r un peth, ac fe geir rhestr termau ar wefan Medr.

Fe ofynnem ni:

11. Beth yw’r blaenoriaethau allweddol ar gyfer darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru yn y pum mlynedd nesaf? A yw’r rhain yn cael eu hadlewyrchu ddigon yn y Cynllun?

Fe ddywedoch chi:



Sail: 63

Roedd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (69%) yn teimlo mai dim ond yn rhannol y mae'r Cynllun yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer darparwyr addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru yn y pum mlynedd nesaf. Roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen i nifer o flaenoriaethau allweddol ar gyfer darparwyr gael eu hadlewyrchu'n well yn y Cynllun:

- Sefydlogrwydd ariannol – y brif flaenoriaeth ar gyfer darparwyr a enwyd gan lawer o ymatebwyr oedd sefydlogrwydd ariannol y sector trydyddol a chydabyddiaeth y bydd y pwysau ariannol sy'n wynebu'r sector yn arwain at ddewisiadau anodd ac, ar adegau, anawsterau o ran cyflawni llawer o'r blaenoriaethau ar gyfer dysgwyr a darparwyr a amlinellwyd.

“Mae risg i'r rhan fwyaf o'r blaenoriaethau a amlinellwyd ar gyfer darparwyr addysg drydyddol ar hyn o bryd oherwydd y pwysau ariannol sy'n wynebu'r sector. Mae cynaliadwyedd ariannol wedi dod yn flaenoriaeth dra phwysig, gan gael blaenoriaeth yn aml hyd yn oed pan fo'n gwrthdaro â nodau amgylcheddol, cymdeithasol, neu ddiwylliannol. Mae ar ddarparwyr angen cymorth i ymgodymu â'r heriau ariannol hyn a chyflawni sefydlogrwydd mewn ffyrdd sydd hefyd yn ategu nodau hirdymor Cymru ar gyfer ffyniant a chynaliadwyedd economaidd.”

- Addasu cwricwla i fynd i'r afael ag anghenion o ran sgiliau – mae hyn yn cynnwys diwallu anghenion agendâu sy'n newid o ran yr economi a diwydiant.
- Cyfranogiad – mewn addysg ym mhob rhan o'r sector trydyddol.
- Rhyngwladoli – yr angen i ehangu cyfleoedd ar gyfer rhaglenni cydweithio a chyfnwid rhyngwladol i wella safbwyntiau byd-eang mewn addysg, i ddenu'r staff gorau yn rhyngwladol, a chydweithio rhyngwladol mewn ymchwil o ansawdd da .
- Gweithlu – heriau sicrhau gweithlu addysg drydyddol digonol ac wedi'i hyfforddi'n briodol i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr ac anghenion diwydiant yn y dyfodol.
- Denu a chadw staff – y staff iawn ar gyfer y gofynion addysgu a'r staff gorau'n rhyngwladol

Fe wnaethom ni:

Cynaliadwyedd ariannol a chyllid oedd y neges allweddol a ddaeth drwodd yn yr adran hon o'r ymgynghoriad, gan gynnwys y cyfundrefnau cyllido gwahanol ar gyfer rhannau gwahanol o'r sector, megis y broses gystadleuol ar gyfer darparwyr dysgu seiliedig-ar-waith. Fel a nodwyd yn flaenorol, rydym yn deall yr angen am strategaeth ariannol i ategu ein gweledigaeth, a byddwn yn gweithio i ddatblygu strategaeth ariannol a fydd yn gwireddu'r weledigaeth hon.

Rydym wedi ymdrin yn flaenorol â sylwadau ynglŷn â'r olwg fyd-eang a rhyngwladoli, datblygu a chadw gweithlu proffesiynol a chyfranogiad. Mae Nod Strategol 2 yn ymrwymo i weithio gyda chyflogwyr a chynrychiolwyr cyflogwyr, i “sicrhau bod darpariaeth addysg drydyddol yn ymateb i flaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru”. Mae'r naratif sy'n ategu'r nod hwn yn tanategu'r dirwedd economaidd a chymdeithasol sy'n newid, y mae angen i'r cwricwlwm ymateb iddi.

Fe ofynnem ni:

- 12. Beth yw'r cyfleoedd mwyaf sy'n deillio o fod ag un corff yn gyfrifol am oruchwylio'r sector trydyddol yn ei gyfanrwydd? Yn eich ymateb, ystyriwch**

a yw'r Cynllun yn ein galluogi i wneud y gorau o'r cyfleoedd hyn, neu sut allem ni wneud hyn yn well.

Fe ddywedoch chi:

Nododd ymatebwyr y gallai un corff sy'n gyfrifol am oruchwylio'r sector trydyddol:

- Safoni a gwella ymatebion i heriau anodd ar draws addysg drydyddol ac ymchwil a sicrhau safonau uchel ar draws yr holl sefydliadau – dull system gyfan sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau cyffredin.
- Galluogi strategaeth unedig ar gyfer addysg drydyddol, gan greu llwybrau di-dor mwy eglur ar draws y gwahanol ddarparwyr trydyddol.
- Creu'r cyfle ar gyfer adnoddau a seilwaith a rennir i drosoli rhai o fanteision un corff yn llawn.
- Darparu atebolrwydd a goruchwyliaeth eglur ar gyfer y system sy'n lleihau biwrocratiaeth, dyblygu a gorgyffwrdd, gan hefyd gynyddu dewis a llwybrau ar gyfer dysgwyr.
- Darparu profiadau cyson ar gyfer dysgwyr ar draws y sector trydyddol a chysondeb o ran disgwyliadau dysgwyr.
- Galluogi gwersi ac arfer gorau i fod yn rhai y gellir eu rhannu rhwng sefydliadau.
- Gwella cydlyniad rhwng sefydliadau.
- Data mwy cydgysylltiedig ar draws y sector trydyddol gyda natur fwy agored a thryloyw.

“Dylai bod â data mwy cydgysylltiedig ar draws y sector trydyddol gyda natur fwy agored a thryloyw ei gwneud yn bosibl adnabod bylchau mewn llwybrau dilyniant ac ymdrin â hwy yn fwy rhwydd. Dylai mwy o gysylltedd data olygu hefyd bod y sector yn meddu ar fwy o wybodaeth am dueddiadau a allai daro ei rannau cyfansoddol ar wahanol adegau ar hyd yr un llinell amser, gan ei gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau polisi ar adeg yr effaith gychwynnol.”

Fe wnaethom ni:

Roedd hi'n dda gennym weld bod ymatebion i'r cwestiwn hwn yn adlewyrchu llawer o'n trafodaethau cyn ymgynghori a gafodd eu hymgorffori yn y Cynllun. O ganlyniad, rydym wedi ailfframio naratif y Cynllun i ganolbwyntio ar y cyfleoedd hyn, ac rydym wedi:


- Amlygu'r angen am gydlyniad a sector “cydgysylltiedig” dan Nod Strategol 2.
- Cynnwys ymrwymiad penodol i “gynorthwyo'r gweithlu addysg drydyddol i gael mynediad at ddysgu proffesiynol effeithiol ac (yn) archwilio ffyrdd o rannu arfer gorau, gan estyn addysgeg effeithiol ar draws y sector cyfan”.
- Cynnwys ymrwymiad i “leihau llwyth gwaith i'r eithaf trwy osgoi dyblygu”.

Rydym yn nodi'r alwad am fwy o fanylder o ran sut y bydd llwybrau dysgu eglur yn cael eu cyflawni, a bod rhai ymatebwyr wedi galw am ysgogwyr a chymhellion i gydweithio. Bydd y manylder o ran sut y byddwn yn datblygu llwybrau o'r fath yn aeddfedu wrth i ni weithio gyda phartneriaid i ddatblygu datrysiadau.

Fe ofynnem ni:

13. Mae dyletswydd ar Medr i hybu cydweithio drwyddi draw yn y sector addysg drydyddol ac ymchwil. I ba raddau y mae'r Cynllun yn ein galluogi i wneud y gorau o gyfleoedd i gydweithio?

Fe ddywedoch chi:



Sail: 71

Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn, gyda dim ond 15% yn ymateb gan ddweud y bydd y Cynllun yn galluogi Medr i raddau helaeth a 58% yn dweud y bydd yn galluogi Medr i raddau cymedrol i wneud y gorau o gyfleoedd i gydweithio.

Er yn gyffredinol bod ymatebwyr yn credu bod y Cynllun yn darparu sylfaen gadarnhaol ar gyfer cydweithio, roedd ymatebwyr hefyd yn teimlo nad yw'r Cynllun yn cynnwys cydnabyddiaeth eglur i'r tensiwn cynhenid rhwng cydweithio a chystadleuaeth o fewn y sector a'r effaith y gallai hyn ei chael ar gydweithio. Nododd ymatebwyr hefyd nad yw'r Cynllun yn darparu digon o fanylder o ran sut y bydd y cydweithio hwn yn cael ei gyflawni a'i hwyluso.

"Mae'r Cynllun yn nodi sylfaen gadarnhaol ar gyfer hybu cydweithio ar draws y sector addysg drydyddol ac ymchwil, gan bwysleisio ymgysylltu ag amryw randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr addysgol, partneriaid ym myd diwydiant, a sefydliadau cymunedol. Fodd bynnag, gallai fynd ymhellach i fanylu ar fecanweithiau strwythuredig, ffurfiol ar gyfer cydweithio, megis gweithgorau pwrpasol, fframweithiau partneriaeth, neu fentrau ar y cyd sy'n dod â gwahanol sectorau a rhanbarthau ynghyd."

Nododd rhai ymatebwyr, yn y cyd-destun ymchwil, fod dirfawr angen gwerthfawrogi a chefnogi cydweithio y tu allan i Gymru.

Nododd nifer o ymatebwyr hefyd bwysigrwydd cydweithio gyda chyflogwyr a sefydliadau cyflogwyr.

Fe wnaethom ni:

Rydym yn cydnabod bod llawer o ymatebwyr wedi nodi bod angen manylder ynghylch cydweithio a sut y bydd hyn yn gweithio cyn y gellid cyflwyno gwir ymateb i'r cwestiwn


hwn. Rydym eto'n glir y byddwn, gan weithio gyda phartneriaid, yn datblygu datrysiadau, ond mae arnom eisiau datblygu'r rhain ar y cyd ac mewn partneriaeth, nid ar wahân. Rydym hefyd yn glir bod dysgwyr a chyflogwyr yn bartneriaid yn y broses hon.

Rydym yn cydnabod y tensiwn rhwng cydweithio a chystadleuaeth, ac yn cydnabod y ffaith y bydd cystadleuaeth yn dal i fodoli mewn rhai meysydd, megis cyllid ymchwil, er enghraifft. Ond mae arnom angen newid diwylliannol er mwyn cyflawni sector addysg drydyddol ac ymchwil go iawn, lle mai dysgwyr, a deilliannau dysgwyr, yw'r canolbwynt ar gyfer ein prosesau penderfynu. Byddwn yn "rhoi anogaeth i gydweithio, gan werthfawrogi pob rhan o'r sector trydyddol am ei chryfderau penodol, gan gofleidio amrywiaeth o ran cenhadaeth a lleoliad".

Fe ofynnem ni:

- 14. Mae angen i ni fod yn uchelgeisiol ynglŷn â'r hyn y gallwn ei gyflawni. Fodd bynnag, mae'r amgylchedd ariannol yr ydym yn gweithio ynddo'n gryn her. Rydym hefyd yn cydnabod bod sefydlu Medr yn her sylweddol i'r sector ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau proses bontio esmwyth. Gan ystyried y cyd-destun yr ydym yn gweithio ynddo, i ba raddau y mae lefel yr uchelgais yn y Cynllun yn addas?**

Fe ddywedoch chi:



Sail: 68

Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn, gyda 62% yn ymateb gan ddweud bod lefel yr uchelgais yn y Cynllun yn addas i raddau cymedrol a 21% yn ymateb gan ddweud bod lefel yr uchelgais yn addas i raddau helaeth.

Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn teimlo bod y Cynllun yn uchelgeisiol, ac mai iawn yw hynny; fodd bynnag, roedd pryderon y gallai'r heriau cyfredol o ran cynaliadwyedd ariannol effeithio ar allu darparwyr i gyflawni yn erbyn yr uchelgeisiau hyn. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo hefyd nad oedd pob un o'r uchelgeisiau'n disgrifio'r deilliannau bwriadedig yn ddigon eglur.

Cafodd tri maes eu hamlygu'n gyffredin fel rhai heb ddigon o uchelgais:

- Mae angen mwy o uchelgais o ran y Gymraeg.
- Mae angen mwy o eglurder ynghylch yr uchelgeisiau ar gyfer dysgwyr ag anghenion ychwanegol.
- Ceir diffyg uchelgais yn y Cynllun ym maes 'golwg fyd-eang'.

Roedd rhai gwahaniaethau barn mewn perthynas â'r uchelgeisiau ar gyfer ymchwil yn y Cynllun. Er bod rhai ymatebwyr yn meddwl nad oedd y cynllun yn ddigon uchelgeisiol o ran ei nodau ar gyfer ymchwil ac arloesi, roedd eraill yn meddwl bod rhai o'r nodau'n rhy uchelgeisiol ac felly nad oeddent yn gyraeddadwy.

Fe wnaethom ni:


Rydym eto'n cydnabod, er ein bod yn credu bod y Cynllun yn uchelgeisiol, ein bod yn deall barn nifer o ymatebwyr, sef *"heb weld cynlluniau ariannol manwl sy'n dangos sut y bydd ffrydiau cyllido pwysig yn cael eu neilltuo neu eu creu, mae'n anodd gwneud sylw am y cwestiwn pa un a fydd y deilliannau'n cyd-fynd â'r dyheadau"*. Rydym hefyd yn nodi, dros yr hirdymor, bod angen buddsoddi yn y sector addysg drydyddol ar gyfer twf. Galwodd rhai ymatebwyr am ddull graddol gyda nodau byrdymor, i ategu'r uchelgeisiau a ddatgenir. I'r gwrthwyneb, galwodd eraill am newid cyflymach, *"yn fwyaf nodedig o ran mwy o gydweithio a rhesymoli mewn perthynas ag 14-19 a sicrhau dull eglur, cydlynol a chydgyssylltiedig ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol"*.

Fe ofynnem ni:

15. Fe ofynnem ni gyfres o gwestiynau dilynol a oedd yn ymwneud â'r uchelgeisiau yn y Cynllun:

- **I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n huchelgeisiau hirdymor ar gyfer llwyddiant?**
- **Pa newidiadau sy'n ofynnol yn y sector i wireddu'r uchelgeisiau hirdymor hyn?**
- **Sut fyddwn ni'n gallu mesur llwyddiant yn erbyn yr uchelgeisiau hyn?**

Fe ddywedoch chi:



Sail: 68

Roedd bron hanner yr ymatebwyr yn cytuno i raddau helaeth ag uchelgeisiau hirdymor y Cynllun ar gyfer llwyddiant, gyda 41% yn cytuno i raddau cymedrol.

Roedd llawer o'r uchelgeisiau yn y Cynllun yn cael eu croesawu, er bod galwad hefyd am fwy o eglurder o ran yr hyn y mae'r uchelgeisiau'n ei olygu – i egluro'r uchelgeisiau ymhellach, eu meintoli, ac egluro'r rhesymeg.

Daeth dau faes allweddol i'r amlwg lle'r oedd ymatebwyr yn teimlo y gallai'r Cynllun fod yn fwy uchelgeisiol:

- Yr angen i Medr edrych yn fwy tuag at allan yn ein huchelgeisiau a bod â mwy o ffocws ar ryngwladoli.
- Yr angen am fwy o uchelgais wrth ddatblygu llwybrau eglur o'r ysgol drwodd i AU.

Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y dylai'r sector fod â chytundeb traws-sector cryfach ynglŷn â chyfeiriad i lywio'r uchelgeisiau a darlun mwy eglur o ran ble y mae'r sector yn anelu at gyrraedd. Adlewyrchir hyn mewn galwadau am well data a thystiolaeth i oleuo prosesau llunio polisiau, cynllunio a gwneud penderfyniadau sy'n cael mwy o effaith.

Nododd ymatebwyr yr angen hefyd i'r sector wella ymgysylltiad â chyflogwyr a sefydliadau cyflogwyr, ac i ymateb i anghenion o ran sgiliau diwydiannol megis llythrennedd digidol a sgiliau gwyrdd.

“Er mwyn paratoi ar gyfer gweithlu'r dyfodol mae angen mwy o ffocws ar sgiliau digidol a gwyrdd ar draws pob lefel dysgu.”

O ran mesur llwyddiant yn erbyn uchelgeisiau'r Cynllun nododd ymatebwyr fod data sylfaenol o ansawdd da'n allweddol ac fe amlygon nhw nifer o feysydd lle bydd angen tystiolaeth i fonitro cynnydd ac adrodd ar ddeilliannau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfraddau dilyniant a chyfranogiad dysgwyr.
- Tracio gwelliannau a chyfranogiad mewn deilliannau a chyflawniad dysgwyr, yn enwedig ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac anghenion ychwanegol.

- Gwerthuso'r modd y mae cyflogaeth a sgiliau yn cyd-fynd â'i gilydd.
- Mesur effaith ymchwil.
- Adborth ar brofiad dysgwyr.
- Mesurau gwell ar gyfer y Gymraeg a chyfraddau datblygu.

Bydd angen ymgynghori pellach ynghylch datblygu mesurau llwyddiant, gan gynnwys sut orau i ddefnyddio ffynonellau data sy'n bodoli eisoes.

“Gall Medr fesur llwyddiant yn erbyn ei uchelgeisiau hirdymor trwy gyfuniad o fetrigau meintiol ac ansoddol, gyda ffocws ar ddeilliannau dysgwyr, effeithiolrwydd sefydliadol, a gwerth cymdeithasol”.

Fe wnaethom ni:

Rydym wedi adolygu ein naratif mewn perthynas â llwybrau eglur, ac yn cyfeirio at feithrin “cydweithio rhwng darparwyr i greu llwybrau dysgu cydlynol a hyblyg sy'n hawdd i bobl gael mynediad atynt a symud drwyddynt ar unrhyw adeg mewn bywyd”. Fe gyfeiriodd ymatebwyr at bwyntiau mynediad ac ymadael lluosog, a hyblygrwydd – rydym yn cydnabod nad oes gennym y manylder i danategu hyn eto, ac rydyn yn ymrwymedig i weithio i ddatblygu llwybrau o'r fath. Rydym yn croesawu'r farn gyffredinol bod ar ymatebwyr eisiau cytundeb traws-sector ar uchelgeisiau, ac yn cefnogi'r defnydd o ddata i oleuo prosesau llunio polisïau a phenderfynu.


Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda darparwyr wrth iddynt bennu uchelgeisiau ar gyfer gwella'n barhaus, a byddwn yn ymgynghori ynghylch dangosyddion perfformiad i ategu hyn. Bydd datblygu mesurau ar gyfer llwyddiant yn cael ei fynegi yn ein cynllun gweithredol.

Fe ofynnem ni:

16. Fe ofynnem ni gyfres o gwestiynau a oedd yn ymwneud â Nod Strategol 5-

- **A yw'r Cynllun yn rhoi adlewyrchiad priodol o uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?**
- **A ellid newid y Cynllun i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau andwyol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?**
- **A ellid newid y Cynllun i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau andwyol, ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Fe ddywedoch chi:



Sail: 64

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (55%) yn cytuno bod y Cynllun yn rhoi adlewyrchiad priodol o uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Fodd bynnag, roedd 31% yn anghytuno â'r cwestiwn hwn.

Mae nifer o ymatebwyr yn adlewyrchu sylwadau a wnaed mewn ymatebion drwy'r ddogfen ymgynghori nad oes digon o fanylder ac uchelgais mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg i'w gweld yn y Cynllun. Mae themâu allweddol a ailadroddwyd mewn ymatebion i'r cwestiynau hyn yn cynnwys:


- Mae diffyg dealltwriaeth yn y Cynllun am y sector addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg.

“Mae maes addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16 yn unigryw ac yn wahanol i addysg drydyddol mewn darpariaeth ehangach ac yn gofyn am ddealltwriaeth aeddfed am y ddarpariaeth cyn symud ymlaen.”

- Cyfeiriad annigonol at heriau o ran gweithlu cyfrwng Cymraeg (neu'r flaenoriaeth i greu gweithlu cyfrwng Cymraeg ar gyfer y dyfodol).
- Yr heriau cyllidol sy'n gysylltiedig â rhedeg cyrsiau angenrheidiol ar gyfer lleiafrif cyfrwng Cymraeg.
- Diffyg sylw i lwybrau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg a chymwysterau cyfrwng Cymraeg.
- Diffyg sylw i lwybrau dysgu / darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer ADY dwys a myfyrwyr ADY.
- Diffyg cyfeiriad at Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru).
- Yr angen i weithio gyda CYDAG (Cymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg), CSCAau (Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg) ac Awdurdodau Lleol fel partneriaid.


Er bod llawer o ymatebwyr yn croesawu'r ffaith bod Nod Strategol penodol sy'n gysylltiedig ag addysg cyfrwng Cymraeg wedi cael ei gynnwys, byddai'n well gan eraill

weld ystyriaeth i'r Gymraeg mewn addysg a'r gweithlu addysg yn cael ei phrif-frydio drwyddi draw yn yr holl nodau yn y Cynllun.



Sail: 49

Roedd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (67%) yn teimlo y gellid newid y Cynllun i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau andwyol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Sylwer bod llai na hanner yr ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn.



Sail: 46

Roedd ychydig o dan ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (63%) yn teimlo y gellid newid y Cynllun i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau andwyol, ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Sylwer bod llai na hanner yr ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn

Yn gyffredinol roedd ymatebwyr yn teimlo ei bod yn anochel y byddai canlyniadau negyddol i'r Gymraeg mewn addysg pe na bai'r Cynllun yn ddigon uchelgeisiol a manwl yn ei nodau. Mae canlyniadau o'r fath yn cynnwys:

- Canlyniadau anfwriadol posibl y buddsoddiad mewn colegau (AB) ar draul llwyddiant ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Diffyg dealltwriaeth am y rhwystrau sy'n bodoli i ddysgwyr o ran dilyn cyrsiau a pharhau â chysiau trwy gyfrwng y Gymraeg, gan danseilio'r gallu i gryfhau darpariaeth.
- Pryderon ynghylch y cyllid sydd ar gael i ategu darpariaeth, yn enwedig ar gyfer chweched dosbarth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Roedd ymatebwyr hefyd yn teimlo bod nifer o feysydd lle gallai'r Cynllun a sefydlu Medr gael effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector. Mae'r rhain yn cynnwys yr effaith ddiwylliannol gadarnhaol ar Gymru, cynyddu hygyrchedd o ran y Gymraeg yn y sector trydyddol a chefnogaeth gryfach i lwybrau dysgu Cymraeg.

“Ein gobaith cryf ni yw y bydd y Cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Dylai datblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg, gyda rôl gysylltiedig ac arbennig i bob sefydliad, arwain at dirwedd drydyddol fwy cysylltiedig i gyflwyno darpariaeth Gymraeg.”

Fe wnaethom ni:

Rydym yn ddiolchgar am yr amrywiaeth eang o sylwadau ynglŷn â'r Gymraeg, mewn ymatebion i nifer o gwestiynau. Er rhyddineb darllen, rydym wedi casglu ein hymatebion dan gwestiynau 16-18 yn y ddogfen ymgynghori.


Fe wnaethom ystyried yn ofalus a ddylai'r Gymraeg fod yn nod strategol ar wahân, ynteu a ddylai'r Gymraeg fod yn rhan o bob nod strategol. Fe ymgynghorom ni â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, fel ein person dynodedig, cyn ysgrifennu'r Cynllun, ac fe benderfynom ni y dylai fod â'i nod ei hun i sicrhau digon o amlygrwydd a thanlinellu ei phwysigrwydd.

Rydym yn cydnabod yr angen i weithio gydag ystod o bartneriaid i ddatblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer Cymru ar draws y sector addysg drydyddol ac ymchwil, ac rydym wedi gwneud hyn yn fwy eglur bellach yn ein hymrwymadau sefydlu. Rydym wedi cynnwys nod penodol sy'n ymwneud â Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), gan gydnabod y bydd rôl Medr yn hyn o beth yn esblygu dros amser. Rydym hefyd wedi cyfeirio'n benodol at weithlu'r sector addysg drydyddol ac ymchwil, a'r angen i wella recriwtio a chadw staff.

Fel y soniwyd yn gynharach yn ein hymatebion, rydym wedi cyfeirio at heriau ariannol ar draws y sector, ac rydym yn deall perthnasedd hynny yng nghyd-destun dysgu yn Gymraeg. Bydd camau gweithredu mwy manwl yn cael eu cynnwys yn ein cynllun gweithredol.

Atodiad 1- Nodau Strategol Medr

Cynllun Strategol Medr: Crynodeb



Sefydli Medr fel sefydliad hynod effeithiol a rheoleiddiwr yr ymddiriedir ynddo.

Ymrwymadau sefydlu:

- Adolygu a gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol i wreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws Medr.
- Cydweithio'n agos gyda'n hundeb llafur cydnabyddedig a chydgyhyrchu Cytundeb Partneriaeth Gymdeithasol yn 2025.
- Datblygu ein system reoleiddio, a danategir gan gofrestr addysg uwch a thelerau ac amodau cyllid.
- Sefydli data sylfaenol a gweithio gyda rhanddeiliaid i adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Ymrwymadau twf:

- Cydweithio gyda rhanddeiliaid o bob math, gan eu cynnwys yn ein gwaith mewn modd ystyrlon.
- Defnyddio dull seiliedig-ar-risgiau i fonitro cydymffurfiaeth â'r system reoleiddio.
- Adolygu a gwella sut yr ydym yn casglu data i sicrhau ei fod o ansawdd da ac yn lleihau baich diangen.
- Ymgynghori ar system gyllido i gefnogi'r sector addysg drydyddol a sicrhau defnydd effeithiol o gyllid.
- Buddsoddi yn ein qweithlu, qan qefnoqi datblygiad personol a phroffesiynol.

Sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr.

Ymrwymadau sefydlu:

- Sefydli amodau rheoleiddiol i hybu tegwch a chyfle cyfartal a gweithio gyda phartneriaid i gyfrannu at ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, a thrais a cham-drin ar sail rhywedd.
- Cyfrannu at gyflawni Cymru wrth-hiliol a sicrhau amgylcheddau dysgu a gwaith cynhwysol i bawb.
- Hybu dull sy'n canolbwyntio ar unigolion i gefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Sefydli amodau rheoleiddiol i gefnogi lles dysgwyr a staff.
- Sefydli cod ymgysylltu â dysgwyr a sicrhau bod gweithdrefnau cwynion yn eu lle.
- Creu fforwm llais y dysgwr i oleuo prosesau Medr ar gyfer llunio polisiau a gwneud penderfyniadau.
- Sicrhau bod dysgwyr a staff yn ymwybodol o gyfleoedd i ddysgu a gweithio'n fyd-eang.

Ymrwymadau twf:

- Galluogi dysgwyr i fod yn ddinasyddion ymgysylltiol sy'n edrych tuag at allan, gan gefnogi datblygiad cymunedau cydlynus.
- Hybu manteision dysgu gydol oes a gosod targedau i gynyddu cyfranogiad.
- Annog rhagor o ddysgwyr cyn-16 i bontio i addysg drydyddol a lleihau cyfran y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Creu system addysg drydyddol hyblyg a chydgyssylltiedig lle gall pawb gaffael y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid.

Ymrwymadau sefydlu:

- Cefnogi defnydd o dechnolegau, diwydiannau a ffyrdd o weithio sy'n newid.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ymateb i'r blaenoriaethau o ran sgiliau y mae'n eu pennu.
- Sicrhau bod darpariaeth prentisiaethau'n ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac yn diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r economi.
- Datblygu cysylltiadau cryf â rhanddeiliaid a sicrhau bod darpariaeth drydyddol yn ymateb i flaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru.
- Annog darparwyr i ddatblygu eu cenhadaeth ddinesig a rhannu eu gwybodaeth i ddwyn budd i gymunedau.

Ymrwymadau twf:

- Hwyluso dysgu gydol oes trwy ymagweddau hyblyg at amser, lle, iaith a chymorth ar gyfer dysgu.
- Creu llwybrau dysgu cydlynol a hyblyg sy'n hawdd i bobl gael mynediad atynt ar unrhyw adeg mewn bywyd.
- Adolygu dysgu oedolion yn y gymuned ac ystyried sut y gellir gwneud gwelliannau i ddarpariaeth sgiliau hanfodol ac iaith sylfaenol.

Sicrhau bod dysgwyr yn cael darpariaeth o'r ansawdd gorau mewn system addysg drydyddol sy'n ymagnïo i wella'n barhaus.

Ymrwymadau sefydlu:

- Gweithredu fframwaith ansawdd cydlynol sydd â ffocws ar brofiad a deilliannau dysgwyr.
- Sicrhau bod ein fframwaith ansawdd yn cyd-fynd â fframweithiau arolygu a rheoleiddio angenrheidiol a safonau rhyngwladol.
- Mynd ati'n frwd i hybu partneriaeth gymdeithasol.
- Gweithio gyda darparwyr wrth iddynt bennu uchelgeisiau ar gyfer gwella'n barhaus a hybu arloesi a gwelliant.
- Cyflwyno dangosyddion perfformiad i hybu'r arfer o wella'n barhaus.

Ymrwymadau twf:

- Cynorthwyo'r gweithlu i gael mynediad at ddysgu proffesiynol effeithiol a rhannu arfer gorau.
- Diffinio deilliannau rhagorol ar gyfer dysgwyr a darpariaeth o ansawdd da.
- Gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer deilliannau a phrofiadau dysgwyr.
- Dadansoddi deilliannau dysgwyr i sicrhau bod dysgu'n cael effaith gadarnhaol ar ddyfodol dysgwyr.
- Adolygu sut y mae ein modelau cyllido a chofrestru'n effeithio ar gyflawni dangosyddion perfformiad. Monitro a gwella perfformiad y sector.

Tyfu ymchwil o fri rhyngwladol a rhoi ysbrydoliaeth i arloesi drwyddi draw yn y sector addysg drydyddol.

Ymrwymadau sefydlu:

- Hybu amgylcheddau ymchwil cadarnhaol sy'n gallu denu a chadw'r ymchwilwyr gorau o bob rhan o'r byd.
- Cryfhau ein perthnasoedd a helpu ein darparwyr i dyfu'r gyfran o gyllid ymchwil y maent yn ei chael.
- Defnyddio data i ddangos effaith yr ymchwil ac arloesi a gyllidir gennym ac adolygu sut yr ydym yn rhannu gwybodaeth.

Ymrwymadau twf:

- Rhoi anogaeth ar gyfer gweithgarwch ymchwil ac arloesi sy'n cael effaith gadarnhaol ar Gymru a dylanwad byd-eang.
- Hybu diwylliant o arloesi a chyfnewid gwybodaeth drwyddi draw yn y sector addysg drydyddol a rhoi anogaeth ar gyfer cydweithio sy'n gwella cynhyrchiant ac sy'n gyson â'r llif o sgiliau.

Hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, gan gynyddu'r galw am, a chyfranogiad mewn, dysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymrwymadau sefydlu:

- Datblygu a gweithredu Strategaeth y Gymraeg i alluogi Medr i ddod yn weithlu dwyieithog lle mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried bob amser mewn penderfyniadau ynglŷn â pholisïau.
- Datblygu a gweithredu cynllun cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ar draws y sector addysg drydyddol cyfan.
- Gwella cyfraddau recriwtio a chadw staff Cymraeg a galluogi mwy o staff i ddod yn hyderus yn y Gymraeg.

Ymrwymadau twf:

- Monitro cynnydd o ran cyflawni'r cynllun cenedlaethol a chymryd camau gweithredu lle y bo angen.
- Cyflawni ein rôl o fewn Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru).
- Hyrwyddo manteision dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a chynyddu'r galw am hynny.
- Sefydlu polisïau sy'n hybu ethos a diwylliant Cymraeg; annog y gweithlu addysg drydyddol ehangach i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government